

## Ydych chi'n Ofalwr sy'n byw yng Ngheredigion neu ydych chi'n gofalu am rywun sy'n byw yng Ngheredigion?

Gallwch wneud cais am Gerdyn Gofalwyr AM DDIM er mwyn cael:


- prawf eich bod yn Ofalwr
- disgowntiau a budd-daliadau

## I gael rhagor o wybodaeth a gwneud cais am Gerdyn Gofalwyr Ceredigion:

[www.ceredigion.gov.uk/cerdyngofalwyr](http://www.ceredigion.gov.uk/cerdyngofalwyr)

 [unedgofalwyr@ceredigion.gov.uk](mailto:unedgofalwyr@ceredigion.gov.uk)

 **01970 633564**

 **Uned Gofalwyr  
Cyngor Sir Ceredigion  
Canolfan Rheidol  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
SY23 3UE**

## Ar gyfer pwy y mae'r Cerdyn Gofalwr?


- Mae'r Cerdyn Gofalwyr ar gyfer Gofalwyr di-dâl.
- Mae Gofalwr yn rhywun sy'n gofalu am ffrind neu aelod o'r teulu, nad ydynt yn gallu ymdopi ar eu pen eu hunain oherwydd bod ganddynt anabledd, salwch corfforol neu feddyliol neu eu bod yn cael eu heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau neu alcohol.

## Beth yw Cerdyn Gofalwyr Ceredigion?

- Mae'r Cerdyn Gofalwr yn gerdyn adnabod sy'n cynnwys llun, a gyhoeddir gan Gyngor Sir Ceredigion i Ofalwyr sy'n 18 oed a throsodd, sydd wedi cofrestru gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Cyngor Sir Ceredigion ac sy'n gofyn am gael cerdyn Gofalwr.
- Rhoddir Cerdyn Gofalwr Ifanc i Ofalwyr 18 oed ac iau sy'n gofyn am gerdyn.
- Mae'r Cerdyn Gofalwr yn cadarnhau bod yr unigolyn a ddangosir ar y cerdyn yn Ofalwr a bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu.



# Cerdyn Gofalwyr Ceredigion



*Ydych chi'n Ofalwr?*

## Ymgeisiwch nawr



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

